Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | 24 Gorffennaf 2024 |
| | | Rhif Union: | 01824712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 30 GORFFENNAF 2024** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2024 (copi ynghlwm).

**5 SYSTEM RHEOLI GWYBODAETH GOFAL CYMDEITHASOL NEWYDD** (Tudalennau 15 - 46)

Ystyried adroddiad ar y cyd **(sy'n cynnwys atodiad cyfrinachol)** gan y Cynghorwyr Julie Matthews, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Diane King, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd (copi ynghlwm) yn gofyn am gymeradwyo'r Achos Busnes a chymryd rhan yn y Rhaglen genedlaethol Cysylltu Gofal.

**6 PROSIECTAU CRONFA FFYNIANT BRO GORLLEWIN CLWYD: SGWÂR SANT PEDR A PHARC CAE DDÔL** (Tudalennau 47 - 290)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant (copi ynghlwm) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cam nesaf y ddau brosiect Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd yn Rhuthun.

**7 DYFARNIAD CYLLID FFYNIANT BRO LLYWODRAETH Y DU (ROWND 3) – ETHOLAETH DYFFRYN CLWYD.** (Tudalennau 291 - 332)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd (copi ynghlwm) yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y penderfyniad brys a wnaed i dderbyn y cynnig dyfarniad Grant gan Lywodraeth y DU, dan Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro.

**8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG AR GYFER 2025/26 – 2027/28** (Tudalennau 333 - 358)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn.

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 359 - 372)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**10 RHAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 373 - 380)

Derbyn Rhaglen Waith y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 ac 13, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**11 GWASANAETHAU CEFNOGI'R GRANT CYMORTH TAI** (Tudalennau 381 - 440)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn ymwneud â nifer o wasanaethau Grant Cymorth Tai.

**12 TREFNIADAU ASESIAD PERFFORMIAD PANEL - PENODI PANEL** (Tudalennau 441 - 486)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet o'r Cymheiriaid a ddewiswyd er mwyn sefydlu Panel Asesu Perfformiad.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Gwyneth Ellis
Elen Heaton
Alan James
Diane King
Julie Matthews
Jason McLellan
Barry Mellor
Rhys Thomas
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned